



11.0 Ymgysylltu a Dylanwadu

Datganoli a Phwerau

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Pwerau
3. Pwerau Ariannol

Cyflwyniad

Mae **Llywodraeth Cymru** yn gyfrifol am y swyddogaethau a'r pwerau a gaiff eu datganoli iddi gan y Goron ac mae ganddi gyllideb i weinyddu a darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd datganoledig yng Nghymru.

Mae'n gwneud penderfyniadau, yn datblygu a gweithredu polisiau ac yn cynnig cyfreithiau i Gymru mewn meysydd fel iechyd, addysg a'r llywodraeth leol.

Senedd Cymru yw deddfwrfa Cymru, a etholir yn ddemocrataidd. Mae'n dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ac yn gwneud cyfreithiau newydd yng Nghymru.

Mae'r pwerau a ddatganolwyd i Gymru wedi newid ers i **Gynulliad Cenedlaethol Cymru** gael ei greu ym 1999. Cyflwynir newidiadau pan mae Senedd y DU yn pasio cyfreithiau i gynyddu ac ehangu'r amrediad o faterion polisi a ddatganolir dros amser. Cafodd newidiadau penodol eu gwneud ar ôl refferendwm 2011, pan wnaeth y mwyafrif o bleidleiswyr yng Nghymru bleidleisio o blaid rhoi pwerau deddfu llawn i **Gynulliad Cenedlaethol Cymru**.

Mae'r stori ddatganoli yng Nghymru'n un o newid, sy'n egluro poblogrwydd y frawddeg;

'mae datganoli'n broses, nid yn ddigwyddiad'

Cafodd newid arwyddocaol pellach ei wneud ar ôl pasio **Deddf Cymru 2017**, pan symudwyd o'r model 'rhoi pwerau' sy'n rhestru set benodol o bwerau a ddatganolwyd i Gymru, i'r model 'cadw pwerau' lle cytunir ar restr o bwerau a gedwir yn San Steffan, a Chymru'n gyfrifol am yr holl feysydd polisi cyhoeddus eraill.

Yn 2020, newidiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei enw i **Senedd Cymru**. Mae'r stori ddatganoli yng Nghymru'n un o newid, sy'n egluro poblogrwydd y frawddeg 'mae datganoli'n broses, nid yn ddigwyddiad'.

Pwerau

Mae Senedd Cymru yn gweithredu o dan fodel cadw pwerau. Mae'r pwerau hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am:

- Addysg
- Iechyd
- Llywodraeth Leol
- Trafnidiaeth
- Cynllunio
- Datblygu economaidd
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Diwylliant
- Yr iaith Gymraeg
- Yr Amgylchedd
- Amaethyddiaeth a materion gwledig

Golyga hyn ei bod yn gallu penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r meysydd hyn dros Gymru, datblygu a gweithredu polisiau yn y meysydd hyn a chynnig cyfreithiau i Gymru mewn meysydd sydd wedi'u cadw gan Senedd y DU, gan gynnwys cyfiawnder troseddol a phlisma, diogelwch, materion tramor ac amddiffyniad. Cedwir nifer o feysydd sy'n ymwneud â masnach a gwaith hefyd, gan gynnwys cyfraith cyflogaeth, gweinyddu elusennau a gweithrediadau codi arian a diogelu defnyddwyr.

Pan mae deddfwriaeth yn cael ei phasio gan y Senedd, mae weithiau'n cynnwys darpariaethau ar gyfer is-ddeddfwriaeth, sef cyfreithiau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddir iddynt gan ddeddfwriaeth sylfaenol a gaiff ei phasio gan y Senedd. Gall y rhain gynnwys gorchmynion, rheoliadau, rheolau a chynlluniau yn ogystal â chanllawiau statudol a gorchmynion lleol.

Llywodraeth Cymru yw un o'r mudiadau sy'n gwario mwyaf yng Nghymru, gyda chyllideb flynyddol o ddegau o biliynnau. Gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r gyllideb hon i gyllido mudiadau er mwyn rhoi polisiâu ar waith.

Pwerau Ariannol

Trethi

Mae gan **Llywodraeth Cymru** bwerau datganoledig dros y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, y Dreth Trafodiadau Tir (**y dreth stamp cyn hyn**) ac, i ryw raddau, dros y Dreth Incwm. Cafodd y Dreth Dirlenwi ei newid i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi gan **Llywodraeth Cymru** pan gafodd ei datganoli, a newidiwyd y Dreth Stamp i'r Dreth Trafodiadau Tir.



Gwybodaeth

O'r 6 Ebrill 2019, mae pobl sydd â'u prif gartref yng Nghymru ac sy'n talu treth incwm yn talu cyfraddau Cymru o'r dreth incwm, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Gall gweinidogion addasu'r dreth incwm o 10c i'r bunt ar gyfer pob band.

Caiff bandiau'r dreth incwm yng Nghymru ei lleihau 10 ceiniog, ac yna caiff y cyfraddau ar gyfer Cymru a osodir gan **Llywodraeth Cymru** eu hychwanegu ati. Mae'r arian a godir o hyn yn mynd i Drysorlys Cymru **Llywodraeth Cymru**. Nid yw **Llywodraeth Cymru** wedi newid trethi incwm yng Nghymru eto.

Benthyg

Yn y gorffennol, byddai **Llywodraeth Cymru** yn derbyn grant gan y Trysorlys bob blwyddyn i gyllido gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond nid oedd ganddi'r pŵer i fenthyg arian.

Ers 2014, mae gan **Llywodraeth Cymru** y pŵer i fenthyg arian gan Lywodraeth y DU er mwyn talu am ordaliadau annisgwyl neu ddiffyg yn yr hyn a dderbynnir o drethi datganoledig.

Mae gan **Llywodraeth Cymru** y pŵer hefyd i fenthyg arian gan Lywodraeth y DU ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae'r benthygiad hwn wedi'i gapio ar £1 biliwn, ond gellir cynyddu hwn (**ond nid ei leihau**) gan Lywodraeth y DU.



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.